WG35 S 180

# GALARUS EIRIAU,

AR OL FY HOFF OEDRANUS GYFAILL, Y DIWEDDAR

## BARCH. DAVID STEPHENSON,

GWEINIDOG A BLAENOR EGLWYSI

REHOBOTH, NANTYGLO, A BEREA, BLAENAU GWENT,

*Yr hwn a fu farw Awst 22ain, 1849, yn 65 oed.*

GAN

**LEWIS POWELL,**
**CAERDYDD.**

Merch Sion heddyw sydd
A'r dagrau ar ei grudd,
Galaru mae:
Ond fe ddaw'r dyddiau cân
'N well nag erioed o'r bla'n,
Mae'r dyrfa fawr y'mla'n
Yn llawenhau.

"A daeth Ysbryd yr Arglwydd ar Dafydd."—Samuel.
"Dafydd a hunodd gyda ei dadau."—Brenhinoedd.
"A'r galarwyr yn myned o bob tu yn yr heol."—Pregethwr.
"Am hyny byddwch chwithau barod."—Tywysog y Bywyd.

CYHOEDDWYD AR DDYMUNIAD.

---

CAERDYDD:
ARGRAFFWYD GAN W. OWEN.
1849.
*Pris Un Geiniog.*

X205314812

## GALARUS EIRIAU, &c.

1 Pan y ganwyd, ni feddyliwyd,
Pa mor ddiwyd byddai fe;
Pan danfonwyd i'r cynhauaf—
Hen gynhauaf mawr y ne':
Nid oedd proffwyd yn yr ardal
'Wyddai ddim y dydd o'r bla'n,
Am ei lafur mawr a'i lwyddiant,
Yn y weinidogaeth lan.

2 Ond y nefoedd fry a wyddai
Cyn ei fod, na bod y byd;
Yn y tragywyddoldeb boreu,
Cyn yr oesau draw ryw bryd;
Pan cyflawnwyd y bwriadau,
Cawsom ninau flwyddau maith,
Weled Stephenson yn hwylus
A llwyddiannus yn y gwaith.

3 Tyred, tyred, oedd yr alwad,
Dos, medd nefoedd, heb nacâu,
Ië, dos, a dywed hefyd—
Paid ag oedi, rhed yn glau:
Gâd di bob peth, rhaid it' adael,
A holl dylwyth, tre' a gwlad;
Dw'ed wrth bell a hefyd agos
Am yr iechydwriaeth rad.

4 Aeth i fyny cyn yn blygain,
Do, fe aeth yn nyfnder nos,
Pan yn dywyll fel y fagddu—
Hen dywyllwch llawer o's:
Ond ca'dd wel'd y nos yn cilio,
Nid yn aros fel o'r bla'n;
Aeth yn oleu yn ei ddyddiau,
Lluoedd ddaeth i seinio cân.

5 Galwyd ef i'r offeiriadaeth
  Gan yr Arch-offeiriad mawr;
Gwnaethwyd yn offeiriad hyfryd,
  Cysegrwyd gan yr orsedd fawr.
Offeiriadodd faith flyneddeodd,
  Ni ddiffygiodd ar ei daith;
Cyflawnodd ef yr holl wasanaeth,
  Ac ni flinodd ar y gwaith.

6 Gwisgwyd yn yr arfau 'n gyflawn,
  Tywalltwyd olew ar ei ben;
Fe aeth ef i'r maes yn ffyddlon,
  Dan fendithion nefoedd wen:
Pwy 'n gyflymach ar ei fwa,
  Pwy a'i saethau yn fwy llym,
Pwy a'i gleddyf noeth yn loywach—
  Bellach rhoddwch wybod im'?

7 Gwr a'r blodau hardd a'r ffrwythau,
  Ië, a'r perlau gorau ga'd;
Un yn rhodio ymhlith y lili,
  Ac yn per-arogli'r wlad:
Didwyll laeth a mêl oedd ganddo,
  Nad oes dim o'u bath yn bod;
Ni bydd chwaith yn oes y bydoedd,
  Ac ni bu eu bath erio'd.

8 Er na wyddai mrawd yr ieithoedd
  Gwreiddiol, ddaeth o'r gwledydd pell;
Er na ddysgodd mewn colegau,
  Sydd yn gwneud y da* yn well:
Ond dysgodd fwy nâ dysgu Hebrew,
  Greek, a Latin, a phob iaith;
Dysgodd fyw fel dyn yn dirion,
  Ac fel Cristion ar ei daith.

9 Dysgodd beth oedd bod yn foddlon,
  Dysgodd gan yr addfwyn O'n;
Dysgodd beidio gwneud, a gwneuthur,
  Dysgodd ddweyd, a thewi son;

* Nid y da yn ddrwg, na'r drwg yn waeth, na'r gwaeth yn waethaf.

Dysgodd wersi'r iachawdwriaeth,
*System* cadwedigaeth dyn;
Yn athrofa pen Calfaria,
Lle mae'r ieithoedd oll yn un.

10 Iesu, medd addewid Eden,
Y Salmau, a'r proffwydi i gyd;
Iesu, medd yr efengylwyr,
Heb un gynen yn y byd:
Apostolion a merthyron,
Gwaredigion, heb ddim rhi,
Stephenson, yn llon gyhoeddai
Boddlon wyf i'ch Iesu chwi.

11 Dyna'r man y byddaf boddlon,
Y man boddlonwyd teulu Nhad;
Yn mhob tywydd fel eu gilydd,
A'r ystormydd mwya' ga'd:
Mi edrychaf tuag yno,
A myfyriaf ddydd a nos;
Mi siaradaf ac ni thawaf,
Pwyso wnaf ar Iawn y gro's.

12 Fe aeth heibio i'r lleuadau,
A'r holl hauliau, ddywedir fod;
Ac i lu o'r tylwyth doethion,
Dynion sydd yn fawr eu clod:
Heibio i Newton a'i gredinwyr,
Ai wrth-gredinwyr bob yr un;
Do, a'r holl ddadleuwyr hefyd,
At y gym'rodd natur dyn.

13 Dyna'r *station*, hon a hoffodd,
Dyma fan goludoedd gras;
Yma penderfynodd aros,
Peidiodd byth a myn'd i ma's:
Metha'r ser, a'r haul, a'r lleuad,
A'r planedau gyda hwy,
Weini cysur i bechadur,
Ond ni fetha'r marwol glwy'.

14 Gwaeddai ffarwel, ffarwel, bob peth,
Yn yr iachawdwriaeth lawn;

Ond yr Oen a'i fawrion boenau,
A'i ofidiau foreu a nawn:
Yn ei glwyfau y caw'd iechyd,
Yn ei gystudd esmwythad,
Yn ei angeu y mae bywyd,
Yn ei rwymau caw'd rhyddhad.

15 Chwysodd chwys ergydion marw
Loeson chwerwon angeu'r groes;
Chwysodd waed, O wele, wele,
Pwy? O pwy! a draetha 'i oes;
Pawb yn gwgi ac yn cefni,
Ie 'n gadael Mab y dyn;
Creu a chynal wedi synu,
Marw i faeddu marw ei hun.

16 O meddyliwn am y dwylaw,
A meddyliwn am y tra'd,
O meddyliwn am yr ystlys
Daeth o honi 'r dw'r a'r gwa'd:
Cofiwn am y gair "Gorphenwyd,"
Ddywedwyd ar yr hynod bren,
Bywyd myrdd o deulu'r ddaear,
Testun cân y nefoedd wen.

17 Dyma faesydd gweinidogaeth
Dafydd trwy ei hirfaith o's;
A rhodfeydd ei fyfyrdodau,
Yna rhodiai ddydd a nos:
Fe gymerai'r gorchudd ymaith
Heb roddi gorchudd yn ei le;
Fe lafarai yn oleu goleu,
Ni thywyllai eiriau'r Ne'.

18 Darfu i'r athraw da ei ddysgu,
Pwy sy'n dysgu fel Efe?
Pwy 'sgolheigion mor ddysgedig,
A'i 'sgolheigion diddig E?
Plyged iddo 'r holl athrawon
A'r duwinyddion, dynion mawr,
Y nefolion blygant hefyd,
Ac ymgrymant hyd y llawr.

19 Dònau mawr, Pa bryd llonyddwch?
Ffowch, O ffowch, gymylau dû!
Deuwch ddyddiau bydd caniadau
Yn lle'r holl och'neidiau sy;
Ond pe byddai fy och'neidiau
Yn gwneyd i'r GLOBE i grynu 'nawr;
Gwelaf ddydd heb un ochenaid
Yn y tragwyddoldeb mawr.

20 Dafydd Stephenson fu farw,
Dyma'r newydd chwerw sydd;
Gwr o barch, a gwr o enw
Mawr oedd hwnw yn ei ddydd;
Tad cariadus oedd, a serchus,
Brawd llwyddiannus yn ei oes;
Un ddatganai, O, mor daclus,
Hen rinweddau Crist a'i groes.

21 Mae'r meddygon wedi methu
A'r cynghorion roisant hwy;
A holl foddion physigwriaeth,
I gael meddyginiaeth mwy;
Mae naturiaeth yn llewygu,
Ac yn methu gwneuthur dim;
Darfod byw, ac wele marw,
Dyma hwnw, dyna ei rym.

22 Aeth y newydd trwy y gwledydd,
Gwnaeth y brôydd a'r bryniau'n syn;
Llwythau Israel sydd yn gofyn—
O, ai gwir, ai gwir yw hyn!
Gynau gwelwyd ef yn Kendl*
Gyda gwaith y Deml fawr;
Clywyd Stephenson yn gwahodd
Tua Sion dewch yn awr.

23 Beth a deimlaist yn y fynyd,
Ac a welaist y pryd hyn,

* Yn hwylus ddiolch i'r boneddigion, a phawb, am eu caredigrwydd mawr i'r Gymanfa,

Pan dadlenwyd yr holl leni,
  A thydi yn rhodio'r glyn,
Pan dattodwyd clymau'th babell,
  Ac y tynwyd oll i lawr
Obry 'mhell yn nghysgod angeu.
  Ac yn nhònau'r afon fawr.

24 A oedd angel neu angelion
  Yn yr afon gyda thi?
Ynte'r Arch-offeiriad ffyddlon
  Yno'n gwm'ni llon i ti:
Gwyddom nad oedd neb oddiyma,
  Can's ni bu un dyn erio'd,
Gyda châr na phlant na phriod,
  Er pan ca'dd y bydoedd fod.

25 Beth oedd gwerth yr addewidion
  I ti yn yr afon fawr?
Beth yw blas hen wleddoedd Seion
  Yna'n nhragwyddoldeb mawr?
Yn y wlad lle nad oes adfyd
  Fel sydd yma yn y byd,
O bob adfyd y diangaist—
  Fe sydd yma bron i gyd.

26 Beth yw rhin y gwaed dywalltwyd
  Gynt ar y nodedig fryn?
Melus sain y gair "Gorphenwyd,"
  Glywais flwyddau maith cyn hyn;
Beth yw cyfiawnhau a maddeu,
  Golchi y rhai dua' a ga'd?
Beth yw derbyn afradloniaid
  Yna'n llon i dŷ eu Tad?

27 O'r wybodaeth wyt yn feddu
  Wedi cyrhaedd cyflawn o'd,
Am hen drefn iechydwriaeth,
  Canu mwy tra'r nef yn bod:
A yw gorwŷr Ruth o Moab,
  Yna 'n neidio o nefol barch,
Fel yr oedd pan yn y dwyrain
  Yn neidio'n llon gerbron yr arch?

28 Carwn glywed hanes gobaith
Meddant yna sy'n fwynhad;
Hefyd hyfryd hanes cariad
Perffaith draw yn nhŷ fy Nhad:
A yw ffydd yn olwg yna
Fel y dywedwyd lawer gwaith?
Mi ddymunwn gael gwybodaeth
Helaeth bur am ben y daith.

29 A ydyw mrawd yn adwaen heddyw
Yn mrenhinlys Brenin nef,
Yr hen Barchedig Daniel Lewis,*
Yn barchus a'i derbyniodd ef:
A rhai hynod boreu 'i ddyddiau
Yn Merthyr, Rumni,‡ a'r Caban Gwyn,§
Can's rhai hynod‖ y rhai hyny
Deithiai gyda hwy cyn hyn.

30 Wele fi yn awr yn methu,
Methodd miloedd cyn fy mod,
Wrth anturio edrych yno,
Lle mae'm Duw a'i deulu'n bod;
Er mor wan yw'm golwg heddyw,
Ac na allaf wel'd y'mhell;
Pwy all ddweyd na chaf yn fuan
Dd'od i wel'd yn llawer gwell.

31 Y mae'r manau yr eisteddai,
Ac y safai ymhlith y llu,
Yn y temlau, faith flyneddau,
Heddyw yn eu gorchudd du;
A'r teuluoedd yn y cylchoedd,
Gynt a hoffodd wel'd ei wedd,
Yn och'neidio ac yn cwyno,
O, mae heddyw yn y bedd.

* Gynt gweinidog Zoar, yr hwn a'i derbyniodd yn aelod yn y flwyddyn 1804. Tad Mr. D. S. Lewis, Ebbw Vale, diacon yn Rehoboth. Buont fel Jonathan a Dafydd yr holl flyneddoedd.—*Noble.*

‡ Yno yr urddwyd ef yn y flwyddyn 1818.

§ Lle yr oeddent cyn adeiladu Rehoboth.

‖ Cof genyf am amryw o honynt. Mae fy meddwl yn danllwyth o ymffrost wrth eu cofio. Dywedodd Andrew wrthyf, er ys dau ugain mlynedd, os buaswn i fyw hyd yn 66 oed, y cawswn weled y *milleniwm*. Gobeithio iddo ddweyd y gwir.

32 Yr oedd yn un o dywysogion
Brenin Sion, yn ei ddydd;
Un o'r boneddigion ydoedd,
Dyma'r son am dano fydd;
Pan y fflamia pob *diploma*
Roddwyd yma yn y byd;
Peri titlau teulu'r gwynfyd—
Pwy all ddweyd eu titlau'i gyd.

33 Bydd ei goffadwriaeth yna,
Diau bydd, flyneddau maith;
Ac mewn oesau eto i ddyfod,
Cofir am ei hynod waith.*
Caiff y temlau adeiladwyd
Yn ei ddyddiau hyfryd ef,
Fod yn awgrym per peroriaeth,
Yn ngwasanaeth nef y nef.

34 Bendith, bendith i'r esgobaeth,
Y bu'n esgob flwyddau maith;
Llwyddiant byth, ddymuna'm calon
I rai ffyddlon wrth eu gwaith;
Bydd yn ffyddlon, yw gorchymyn
Brenin daear, Brenin ne';
Esgob mawr yr holl esgobion,
Dyma ei orch'mynion E.

35 Duw'ch bendithio fydd fy ngweddi,
Dros brydnawn fy mhen-llwyd oes;
Os bydd fyr, neu hir, mi'ch cofiaf
Wrth y Gwr fu ar y groes;
Boed Rehoboth a Berea,
Byth a'u henwau'n beraidd iawn;
Pawb sydd yno, pawb a ddelo,
Fyddo o ddoniau'r nef yn llawn.

36 Canu byddoch, er dan wylo,
Methu peidio yn swn y gwa'd;
Dyna'r moddion dyr y galon,
Dail i wella clwyfau'n rhad,

* Derbyniodd o gylch chwech mil o aelodau.

Gwaed yn llifo o'r gwaedlyd Aberth
   Roddwyd draw ar ben y bryn;
Cofiwch chwi, mi gofiaf finau
Am yr Aberth Iawnol hyn.

37 Cofia ei fab mor dirion fagodd,
   Sydd heddyw heb na mam na thad;
Cofia Dafydd, O fy Arglwydd,
   Yn dy drugareddau rhad;
Bendithion nef y nefoedd arno,
   Boed yn agos, nid yn mhell;
Pob daioni a'i dilyno,
   Ni allaf fi ddymuno'n well.

38 Er mor faith yw'r ffordd i'm deithio
   At y bedd* mae'i gorff yn nghudd;
Braidd nad wyf yn teimlo tuedd
   I fyn'd yno heddyw'n brudd;
Mae amddifaid yno eisioes,
   Rhai o agos, ac o bell;
Plaid y rhai amddifaid ydoedd—
   Wn i ddim am neb oedd well.

39 Nid wy'n ameu na dde'i Indiaid
   A Barbariaid gyda mi;
Hottentotiaid a Chaffrariaid,
   Ddo'ent yn rhyw anirif lu:
Can's mae un o'u hen gyfeillion,
   Un o'r rhai ffyddlona' i gyd—
Wedi ei roddi yn y pentwr,
   Yno mae' fel pawb yn fud.

40 O, Pa le mae'r Gwyliedyddion,
   A'r Esgobion ffyddlon fu?
B'le mae'r Gweinidogion hyny
   Oedd mor dirion gynt i mi?
Mae fy ffydd, a'm gobaith hefyd,
   Yn dweyd, maent hwy ar ben eu taith;
Ac yn canu eu caniadau
   Yn y tragwyddoldeb maith.

* Dan fwrdd y cymundeb, lle claddwyd ei anwyl wraig. Gobeithio ceir hanes bywyd y ddau yn fuan.

41 Minau a weddiaf yma,
Cenwch chwithau yna byth;
Dringo wnaf y rhiwiau i fyny,
A dymunaf dd'od i'ch plith;
Chwi ddewisais i'm yn gwmni,—
Atoch deuaf, os caf dd'od;
Can's ni cherais ar y ddaear
Neb yn debyg i chwi erio'd.

42 Wedi marw mae teyrnasu,
Ac nis gellir marw mwy;
Wedi hyny a gaf finau,
Fyned i'w cwmpeini hwy;
Gynt a welais yn yr anial,
A'u dagrau fel fy nagrau i,
Byd y dagrau wyf fi ynddo,
Ond sychwyd byth eich dagrau chwi.

43 Cloddio wnes, a chloddiaf eto,
Am y sylfaen hono sydd
Wedi dàl trwy oesau'r stormydd—
Gwn y deil y stormydd fydd:
Mynwy, Mynwy, a'i holl gylcho'dd,
Pwyswch arni ddydd a nos;
A chanmolwch ei chadernid,
Oriau a mynydau 'ch o's.

44 Rhag im' bechu, O mi dawaf,
A rhag dwrddio meddwl prudd;
Moli wnaf am bethau amlwg,
Credu wnaf am bethau cudd—
Ni chlywodd clust, ni welodd llygad,
Ni ddaeth i galon dyn erio'd;
Un o fyrdd o'r rhyfeddodau,
Sydd o fewn y nef yn bod.

CAERDYDD: ARGRAFFWYD GAN W. OWEN.